Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd
Archwiliad Dwfn

Canfyddiad y cyhoedd o blismona

Pencadlys Heddlu De Cymru a Microsoft TEAMS

11 Mai 2023

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil (Craffu a Chydraddoldeb)
Lee Jones (LJ) – Cadeirydd	Y Prif Weithredwr
Charlotte Amoss (CA)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lisa Morgan (LM)	Swyddog Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Tamara Lafferty (TL)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Naomi Evans (NE)	Swyddog Polisi ar gyfer Bregusrwydd a Dioddefwyr
Jayne Woodward (JW)	Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth
Emma Neale (EN)	Swyddog Polisi ar gyfer Cyfiawnder Troseddol
Sarah Davies (SD)	Rheolwr Ymgysylltu
Heddlu De Cymru	
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis (MT)	Portffolio Troseddau Arbenigol
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Danny Richards (DR)	Pennaeth y Portffolio Plismona Tiriogaethol
Prif Uwch-arolygydd Dros Dro Mark Lenihan (ML)	Pennaeth Safonau Proffesiynol
Caroline Smart (CS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol

Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu

.	Eitem ar yr agenda	Cynnwys
1.	**Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**	1.1 Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau.
2.	**Cyfarfod Uwchgyfeirio - Ebrill 2023** • **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**	2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod Uwchgyfeirio blaenorol yn gofnod gwir. **2.2 Bydd CW ac LJ yn cael cyfarfod ar wahân ynghylch adolygu Noeth-chwiliadau o Blant a darparu ffurflenni chwarterol i Lywodraeth Cymru. CAM GWEITHREDU**
3.	**Adroddiad Sicrwydd Busnes: Canfyddiad y Cyhoedd o Blismona – Canfyddiadau Ymchwil**	1. Darparodd CA drosolwg o adroddiad Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod mewn perthynas â 'Chanfyddiad y Cyhoedd o Blismona – Canfyddiadau Ymchwil'. Rhoddodd CA adborth cadarnhaol cychwynnol a diolchodd i ML am y swm sylweddol o waith a oedd yn cael ei wneud gan Heddlu De Cymru (HDC) yn y maes hwn. 3.2 Darparodd CA drosolwg o'r dulliau ymchwil amrywiol a ddefnyddiwyd i gasglu canfyddiad y cyhoedd o blismona yn Ne Cymru. Roedd y dulliau'n cynnwys sesiynau Grŵp Ffocws gyda chyfranogwyr o'r Grŵp Cynghori Annibynnol, Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona ac asiantaethau partner allweddol. 3.3 Darparodd SG drosolwg o'r adborth o'r sesiynau Grŵp Ffocws. Cafwyd cymysgedd o adborth cadarnhaol a negyddol gan y cyfranogwyr. Mae cyfranogwyr sydd wedi cael profiadau negyddol yn annhebygol o wneud cwynion ffurfiol yn erbyn yr heddlu. Tynnodd SG sylw at y cyfranogwyr hynny a rannodd fod adroddiadau ar y cyfryngau cenedlaethol wedi chwarae rhan fawr wrth feithrin ymddiriedaeth y cyfranogwyr a chanfyddiadau'r heddlu. 3.4 Darparodd SG drosolwg o awgrymiadau'r cyfranogwyr i'r heddlu wella materion. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant seiliedig ar drawma i swyddogion, mesurau gwneud iawn i'r rhai sy'n teimlo bod yr heddlu wedi'u siomi ac esboniad gwell o'r weithdrefn gwyno. 3.5 Esboniodd SD sut mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi defnyddio sesiynau ymgynghori cyhoeddus i ymchwilio i'r maes hwn. Rhoddodd SD drosolwg o'r adborth a ddaeth i law gan y cyhoedd mewn perthynas â'u canfyddiad o blismona. Roedd yr adborth yn cynnwys rhyngweithio negyddol â'r heddlu sydd wedi

		arwain at ddiffyg ymddiriedaeth, canfyddiadau negyddol gan y cyfryngau a diffyg tryloywder ac ymgysylltiad canfyddedig gan yr heddlu. 3.6 Rhoddodd CA drosolwg o gasgliadau'r adroddiad sy'n cynnwys gwerthusiad pellach o 'Ymgyrch Ninian' (rhaglen ymgysylltu sy'n cael ei rhedeg gan yr adran safonau proffesiynol i ddarparu gwybodaeth rheoli risgiau i HDC) a gwelliant pellach o'r Grŵp Monitro Strategol er mwyn creu proses oruchwylio i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a chefnogi'r heddlu i wella tryloywder. Pwysleisiodd CA fod yr heddlu'n cynnal swm sylweddol o waith yn y maes hwn. Fodd bynnag, o'r ymchwil a gynhaliwyd gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mae diffyg ymddiriedaeth a hyder canfyddedig gan y cyhoedd a'r heddlu. Gallai HDC gynyddu eu cyfraddau ymgysylltu er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwaith sy'n digwydd a magu hyder y cyhoedd. 3.7 Darparodd MT drosolwg o hanes yr adran safonau proffesiynol a gwybodaeth am y strategaethau amrywiol a ddefnyddiwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Esboniodd MT fod yr adran safonau proffesiynol yn cymryd rhan mewn gwaith Cenedlaethol ac mae'n rhan o Grŵp Cynghori Cenedlaethol Gwrth-lygredd yr Heddlu. Siaradodd MT am Gynhadledd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu sydd ar ddod ym mis Mehefin 2023. Esboniodd MT fod HDC wedi cyfrannu at y rhan fwyaf o'r gwaith mewnol sy'n ysgogi'r agenda genedlaethol. 3.8 Trafododd y grŵp y trafferthion wrth gyfathrebu'r swm helaeth o waith sy'n cael ei wneud gan yr adran safonau proffesiynol o gofio sensitifrwydd yr achosion a rennir yn y cyfryngau. Rhannodd MT fod HDC yn gweithio ar strategaeth gwrth-naratif i fagu hyder y cyhoedd trwy ddulliau amrywiol fel plismona lleol, y cyfryngau ac ati. Cadarnhaodd MR fod heddlu HDC yn mynd i ddigwyddiadau lleol i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyhoedd. Cadarnhaodd CA y gall Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu weithio gyda HDC i gefnogi eu hymgysylltiad â'r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud. Holodd MT os ydym yn trafod cyfathrebu ac ymgysylltu, ydy'r mynychwyr iawn yn y cyfarfod hwn. **Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ymchwilio i'r cysylltiadau gorau ar gyfer symud ymgysylltu a chyfathrebu yn eu blaen. CAM GWEITHREDU. Bydd trafodaethau rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael eu cynnal o gwmpas rheoli'r strategaeth gyfathrebu yn fewnol ac allanol. CAM GWEITHREDU** 3.9 Esboniodd MT gan fod yr adran safonau proffesiynol wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, bu newid mewn mesurau cofnodi, dulliau ymchwilio i gamymddwyn a chymhlethdod yr achosion. O ganlyniad, mae'r data ar gyfer cwynion wedi cynyddu. Felly, bydd adnoddau yn fater parhaus. Cadarnhaodd MT y caiff adnoddau eu hadolygu bob tri mis. 3.10 Soniodd JW y gallai HDC ddarparu mwy o wybodaeth am y gwaith da a ddefnyddir mewn ymdrin â gwrandawiadau camymddwyn ar eu gwefan. Esboniodd ML fod yn rhaid i HDC fod yn ofalus am beth maent yn ei nodi ar-lein gan na allant ddatgelu'r tactegau a ddefnyddir.

		3.11 Trafododd y grŵp fuddiannau defnyddio ‘eiriolwyr’ i helpu pobl agored i niwed yn fewnol ac yn allanol drwy broses gwynion yr heddlu. **Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a HDC yn cael rhagor o drafodaethau ar ddefnyddio eiriolwyr. CAM GWEITHREDU** 3.12 Trafododd y grŵp y Grŵp Monitro Strategol sy'n cael ei gadeirio gan JW. Trafododd y grŵp y posibilrwydd o wella swyddogaeth y grŵp hwn i fesur craffu mwy ffurfiol er mwyn goruchwylio'r broses gŵynion. **Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a HDC mewn perthynas â hyn. CAM GWEITHREDU.** Gofynnodd MT i'r grŵp fod yn benodol wrth ofyn am ddata gan ML gan fod hwn yn faes gwaith mawr. **Bydd SG a CA yn cael cyfarfod ag ML i fynd trwy gwestiynau mewn perthynas ag adroddiad briffio'r adran safonau proffesiynol. CAM GWEITHREDU** 3.13 Esboniodd LJ fod cwestiynau yn ymwneud â'r adran safonau proffesiynol a'r broses gwyno wedi'u codi yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio a'r Panel Heddlu a Throseddu. **Bydd LJ yn cyfeirio'r ymholiadau hyn at ML. CAM GWEITHREDU**
4.	**Trosolwg o Bapur Briffio'r Adran Safonau Proffesiynol ar Uniondeb ac Ymddygiad yr Heddlu**	4.1 Pwysleisiodd ML y pwyntiau allweddol o adroddiad yr adran safonau proffesiynol ‘Trosolwg o Bapur Briffio'r Adran Safonau Proffesiynol ar Uniondeb ac ymddygiad yr Heddlu’. Cadarnhaodd ML fod Arolygiad diweddar Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi wedi rhoi gradd ‘da’ i'r Adran Safonau Proffesiynol. Roedd un maes i'w wella, sef sut mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn mesur anghymesuredd. Cadarnhaodd ML fod yr Adran Safonau Proffesiynol wedi cyflwyno datrysiad i hyn i'r Grŵp Monitro Strategol, sydd wedi'i gymeradwyo. Bydd yr Adran Safonau Proffesiynol yn adrodd yn ôl i Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi a chadarnhau a yw'r datrysiad hwn yn foddhaol. 4.2 Esboniodd ML y bu Arolygiad Cenedlaethol Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn ddiweddar a oedd yn cynnwys 44 argymhelliad i bob Heddlu. Mae ML wedi bod yn datblygu'r argymhellion hyn. Rhannodd CW fod Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi wedi cadarnhau bod HDC yn bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn mewn modd amserol ac yn unol â'r targed. 4.4 Rhannodd ML y bydd holl swyddogion heddlu HDC yn cael eu gwirio yn erbyn cronfa ddata'r heddlu erbyn diwedd mis Mai 2023 yn unol â chyfarwyddyd y Prif Weinidog. 4.5 Cafodd y grŵp drafodaethau cyffredinol am ymwneud yr Adran Safonau Proffesiynol mewn gwaith cenedlaethol. Diolchodd LJ i ML am lefel yr ymgysylltiad y mae wedi'i roi i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wrth gynnal yr Archwiliad Dwfn hwn.

5.	**Diweddariad am Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS)**	5.1 Esboniodd CW fod Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi gyda HDC ar hyn o bryd fel rhan o'u gwaith 'casglu gwybodaeth ar gyfer yr Arolygiad. Bydd yr arolygiad go iawn yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd 2023. 5.1 Rhagwelir Cyd-arolygiad o'r Trefniadau Amddiffyn Plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Mehefin 2023.
6.	**Unrhyw Fater Arall**	6.1 Ni chododd unrhyw un unrhyw fusnes arall. Cafodd y cyfarfod ei gloi.

Tabl Camau Gweithredu

Nifer	Cam Gweithredu	Perchennog
1.	**CW ac LJ i gael cyfarfod ar wahân ynghylch adolygu Noeth-chwiliadau o Blant a darparu ffurflenni chwarterol i Lywodraeth Cymru.**	CW ac LJ
2.	Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ymchwilio i bwy yw'r cysylltiadau gorau o ran datblygu cyfathrebu ac ymgysylltiad yr adran safonau proffesiynol â'r cyhoedd.	Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
3	**Trafodaethau i'w cynnal rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ymwneud â chyfathrebu a rheoli strategaeth yn fewnol ac allanol.**	Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a HDC
4.	**Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a HDC i gael trafodaethau pellach ar ddefnyddio 'eiriolwyr' yn ystod y daith gwynion i bobl agored i niwed.**	Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a HDC
5.	**Mae angen cynnal trafodaethau rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a HDC mewn perthynas â gwella swyddogaeth y Bwrdd Monitro Strategol.**	Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a HDC
6.	**SG a CA i gael cyfarfod ag ML i fynd trwy gwestiynau mewn perthynas ag adroddiad yr Adran Safonau Proffesiynol.**	SG, CA ac ML
7.	**LJ i gyfeirio ymholiadau mewn perthynas â'r Adran Safonau Proffesiynol o'r Cydbwyllgor archwilio a PCP i ML**	LJ